

11/06/20



*Annwyl Riant / Warcheidwad,*

I grynhoi, dyma rai o'r pwyntiau allweddol ynglŷn â sut fydd y profiad ysgol i'n disgyblion yma yn Ysgol Gymraeg Cwmbrân pan fyddwn ni'n ailagor ar 29ain o Fehefin. Bu'n rhaid ystyried llawer o ffactorau wrth drefnu, a diogelwch holl gymuned ein hysgol yw'r brif flaenoriaeth ynghyd â phethau fel gosodiad y safle, ein cyfleusterau a'r nifer o ddisgyblion a staff fedrwn dderbyn pob dydd yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru. TROSOLWG O'R DDARPARIAETH TAN DDIWEDD Y TYMOR YDY HWN YN UNIG.

- Bydd disgyblion mewn grwpiau bach o lai na 8 i'r ystafell ddosbarth am ddiwrnod cyfan.
  - Ni fydd disgyblion yn gallu cymysgu â grwpiau / dosbarthiadau eraill ar unrhyw adeg yn ystod y dydd.
  - Bydd disgyblion yn mynychu am dri diwrnod ar y mwyaf am y cyfnod tan ddiwedd y tymor.
  - Bydd angen i BOB disgybl ddod â'i ginio a'i byrbryd ei hunan gan na fydd y ffreutur yn gweithredu.
  - Ni ddylai plant sy'n cael yn cael eu hamddiffyn ar sail feddygol (shielding) neu sy'n blant i oedolion sy'n cael eu hamddiffyn ar sail feddygol (h.y. wedi derbyn llythyr gan y llywodraeth) fynychu'r ysgol.
  - Bydd gweithdrefnau golchi dwylo a glanweithdra llym ar waith.
  - Bydd glanhau cyson yn digwydd o gwmpas yr ysgol.
  - Bydd pellter cymdeithasol yn cael ei weithredu a'i atgyfnerthu'n rheolaidd trwy'r ysgol. Gwneir hyn mewn modd sensitif gan roi ystyriaeth i oedran y disgyblion.
  - Dim ond un rhiant/gwarchodwr bydd yn gallu hebrwng ei blentyn/plant i'r safle a'i gasglu. Ni fydd y system gollwng yn gweithredu ac mi fydd angen i bawb parcio oddi ar y safle.
  - Er taw dim ond un symptom o'r firws yw tymheredd uchel, byddwn yn cymryd tymheredd disgyblion cyn iddynt fynd i mewn i safle'r ysgol.
  - Ni fydd gwisgo gwisg ysgol yn orfodol. Deallwn efallai bod rhai o'ch plant wedi tyfu allan o'u gwisg ac nid oes disgwyl i chi brynu un newydd ar gyfer y cyfnod byr hwn. Awgrymw'n eich bod yn ei wisgo mewn gwisg ymarfer corff neu debyg.
- Bydd rhieni / gwarcheidwaid yn cael y dyddiadau y gall eu plentyn eu mynychu a RHAID cadw at y rhain.
- Dim ond disgyblion y mae eu rhieni / gwarcheidwaid wedi cadarnhau eu bwriad i ddod i'r ysgol fydd yn cael eu derbyn.
- ❖ NID YDYM YN GALLU CADARNHAU AR HYN O BRYD OS ALLWN AILAGOR EIN DOSBARTH MEITHRIN.
- ❖ RYDYM YN BWRIADU 'BLOCIO' DYDDIAU'R DISGYBLION FEL Y BYDDANT YN MYNYCHU AM DRI DIWRNOD AM UN WYTHNOS YN UNIG A BYDDANT YN PARHAU I DDYSGU O ADREF AM Y TAIR WYTHNOS SY'N WEDDILL.

Byddwn yn eich diweddarau yn rheolaidd wrth i ni agosáu at y dyddiad agor. DIOLCH YN FAWR IAWN I CHI AM EICH CYDWEITHREDIAD PARHAUS.

PWYSIG: Mae rhaid i BOB rhiant / gwarcheidwad lenwi holiadur byr erbyn dydd Llun, 15fed o Fehefin. Gellir dod o hyd iddo yma:

[https://forms.office.com/Pages/ResponsePage.aspx?id=Ug4\\_TzS3ZEGUCRtgHRR5k-YW-7udbnREvNkQkC4LB4pUQklIvDQyOUdRVDFLMIUoSIFZMFNWMkNRVy4u](https://forms.office.com/Pages/ResponsePage.aspx?id=Ug4_TzS3ZEGUCRtgHRR5k-YW-7udbnREvNkQkC4LB4pUQklIvDQyOUdRVDFLMIUoSIFZMFNWMkNRVy4u)

*Yn gywir,*

*Miss Evans a staff Ysgol Gymraeg Cwmbrân*



11/06/20

*Dear Parent / Guardian*

To summarise, these are some of the key points regarding what the school experience will be like for pupils here at Ysgol Gymraeg Cwmbrân when we reopen on 29th June. Many factors have had to be taken into consideration when organising, the safety of all our school community being the main priority along with things such as the layout of the site, our facilities and the number of pupils and staff who can be on site daily in accordance with Welsh Government guidance. **PLEASE NOTE THIS IS AN OVERVIEW OF THE PROVISION UNTIL THE END OF THIS TERM ONLY.**

- Pupils will be attending in small groups of less than 8 per classroom for a whole day.
  - Pupils will be unable to mix with other groups/classes at any time during the day.
  - Pupils will be attending for three days maximum for the period up until the end of term.
  - ALL pupils will need to bring their own lunch and snack as the canteen will not be operating.
  - Children who are shielding or are the children of adults who are being shielded (i.e. in receipt of a government letter) should not attend school.
  - Strict hand hygiene and sanitizing procedures will be in place.
  - There will be increased cleaning of the school building.
  - Social distancing will be implemented and reinforced regularly throughout the school. This will be done in a sensitive manner with due consideration to the age of the pupils.
  - Only one parent/guardian can bring their child/children to the site and collect. The 'drop off' system will not be operational and you will have to park outside the school grounds.
  - Although a high temperature is only one symptom of the virus, we will be taking the temperature of pupils before they enter the school site.
  - Wearing school uniform will not be compulsory. We understand that some of your children may have grown out of their uniform and you are not expected to buy a new one for this short period. We suggest you dress your child in P.E. kit or similar.
- Parents/Guardians will be provided with the dates their child can attend and these **MUST** be adhered to.
- Only pupils whose parents/guardians have confirmed their intention to attend will be accepted.
- ❖ **WE ARE UNABLE TO CONFIRM AT PRESENT WHETHER OR NOT WE CAN OPEN OUR NURSERY CLASS.**
- ❖ **WE PROPOSE TO BLOCK THE PUPILS' DAYS SO THEY WOULD ATTEND FOR THREE DAYS FOR ONE WEEK ONLY AND WILL CONTINUE TO LEARN REMOTELY FOR THE REMAINING THREE WEEKS.**

We will update you regularly as we approach the reopening date. **THANK YOU VERY MUCH TO YOU ALL FOR YOUR CONTINUED COOPERATION.**

**IMPORTANT: ALL parents/guardians to complete a short questionnaire by Monday, 15<sup>th</sup> June. It can be found here:**

[https://forms.office.com/Pages/ResponsePage.aspx?id=Ug4\\_TzS3ZEGUCRtgHRR5k-YW-7udbnREvNkQkC4LB4pUJQkI1VDQyOUdRVDFLMIUOSIFZMFNWMkNRVy4u](https://forms.office.com/Pages/ResponsePage.aspx?id=Ug4_TzS3ZEGUCRtgHRR5k-YW-7udbnREvNkQkC4LB4pUJQkI1VDQyOUdRVDFLMIUOSIFZMFNWMkNRVy4u)

*Yours sincerely,*

*Miss Evans and all the staff at Ysgol Gymraeg Cwmbrân*